**ATODIAD A**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

**ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL - ADDYSG A CHYMORTH I DEULUOEDD**

**CANLYNIAD YR YMGYNGHORIAD I AGOR DARPARIAETH AR GYFER DISGYBLION SYDD AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL DRWY SEFYDLU CANOLFAN ADNODDAU DYSGU AR GYFER DISGYBLION AG ANAWSTERAU DYSGU CYMEDROL YN YSGOL CYNWYD SANT**

## 1. Diben yr adroddiad

.

1.1 Diben yr adroddiad cyhoeddus hwn yw rhoi gwybod am ganlyniad yr ymgynghoriad i agor darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant.

## 2. Cysylltiad ag amcanion llesiant corfforaethol/blaenoriaethau corfforaethol eraill

2.1 Mae'r cynnig hwn yn helpu i gyflawni'r amcanion llesiant corfforaethol canlynol o dan **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**:

- **Cefnogi economi gynaliadwy lwyddiannus -** cymryd camau i wneud y fwrdeistref sirol yn lle gwych i wneud busnes, byw, gweithio, astudio ac ymweld â hi, a sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar godi sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y fwrdeistref sirol.

- **Defnyddio adnoddau yn ddoethach** – sicrhau bod yr holl adnoddau (ariannol, ffisegol, ecolegol, dynol a thechnolegol) yn cael eu defnyddio mor effeithiol ac effeithlon â phosibl a chefnogi'r gwaith o greu adnoddau drwy'r gymuned a all helpu i gyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

## 3. Cefndir

3.1 Ym mis Rhagfyr 2021, cafwyd cymeradwyaeth gan y Cabinet i ddechrau proses ymgynghori statudol i agor darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol drwy sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant.

3.2 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## 4. Y broses ymgynghori

4.1 Er mwyn bwrw ymlaen â'r cynnig, cynhaliwyd ymarferion ymgynghori rhwng 6 Ionawr 2022 a 17 Chwefror 2022 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

Roedd copi o’r ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor yn ystod y cyfnod hwn:

https://democratic.bridgend.gov.uk/documents/g4137/Public%20reports%20pack%2014th-Dec-2021%2014.30%20Cabinet.pdf?T=10&LLL=0

4.2 Roedd y ddogfen ymgynghori yn gwahodd unigolion i gyflwyno safbwyntiau a barn ynglŷn â’r cynnig. Gellir gweld rhestr o’r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn Atodiad 11.

**5. Crynodeb o’r ymatebion i’r ymgynghoriad**

5.1 Roedd pwyntiau allweddol yr ymgynghoriad fel a ganlyn, ac atodir y manylion llawn ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Cynhaliodd yr awdurdod lleol bedwar cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid yn rhithiol, gyda chyngor yr ysgol, staff, llywodraethwyr a rhieni, yn Ysgol Cynwyd Sant.

**Ymgynghori â dysgwyr**

5.2 Cyfarfu cyngor ysgol Ysgol Cynwyd Sant â chynrychiolwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn rhithiol ar 7 Chwefror 2022 i drafod y cynnig. Ceir manylion llawn am drafodaethau ac ymatebion/eglurhad y cyfarfod yn Atodiad 1 yr adroddiad ymgynghori hwn.

5.3 Roedd y prif gwestiynau gan y plant yn ymwneud â staffio’r dosbarth, ble fyddai lleoliad yr ystafell ddosbarth, pa gyfleusterau fyddai ganddynt, ac amser y diwrnod ysgol ar gyfer y dosbarth. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch a fyddai’r plant yn aros yn eu dosbarth drwy’r dydd, pa oedrannau fyddai yn y dosbarth a pha drafnidiaeth fyddai ar gael. Roedd y disgyblion yn meddwl ei fod yn syniad da.

5.4 Esboniodd cynrychiolwyr y Cyngor sut y byddai’r dosbarth yn cael ei staffio, lle y gallent chwarae, bwyta cinio, mynd i’r toiledau, a beth fyddai amser y diwrnod ysgol ar gyfer y dosbarth. Hefyd, rhoddodd cynrychiolwyr y Cyngor sicrwydd i’r plant ynghylch pa wersi y gallai’r plant fynd allan o’r dosbarth ar eu cyfer, oedrannau’r dosbarth a beth fyddai eu trefniadau cludiant.

**Ymgynghori â’r staff**

5.5 Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori ‘rhithwir’ gyda staff Ysgol Cynwyd Sant ar 7 Chwefror 2022. Ceir manylion llawn am drafodaethau ac ymatebion/eglurhad y cyfarfod yn Atodiad 2 yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

5.6 Codwyd cwestiynau yn ymwneud yn bennaf â staffio ar gyfer y Canolfan Adnoddau Dysgu, cynlluniau datblygu unigol, meini prawf mynediad. Gofynnodd y staff hefyd am staff llanw ar gyfer absenoldeb staff yn y Canolfan Adnoddau Dysgu, llwyth gwaith y cydgysylltydd anghenion dysgu ychwanegol, amserlen y dosbarth a sut y byddai hynny’n gweithio yn yr ysgol i blant.

5.7 Esboniodd cynrychiolwyr y Cyngor y broses recriwtio, staffio a’r cynllun datblygu unigol. Esboniwyd swyddogaeth y Canolfan Adnoddau Dysgu hefyd.

**Ymgynghori â'r corff llywodraethu**

5.8 Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' gyda chynrychiolwyr llywodraethwyr Ysgol Cynwyd Sant ar 7 Chwefror 2022. Ceir manylion llawn am drafodaethau ac ymatebion/eglurhad y cyfarfod yn Atodiad 3 yr Adroddiad Ymgynghori hwn. Codwyd cwestiynau ynghylch unrhyw waith adeiladu a gynlluniwyd ar gyfer ysgol newydd a'r Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd yn bennaf. Dywedodd llywodraethwyr y byddai cael y Canolfan Adnoddau Dysgu yn yr ysgol yn dda i'r gymuned a'u bod yn hapus bod Ysgol Cynwyd Sant wedi ei dewis.

5.9 Esboniodd cynrychiolwyr y Cyngor fod y Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth i ymgynghori ar y cynnig i agor Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn yr ysgol a'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd.

**Ymgynghori â rhieni**

5.10 Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori 'rhithwir' gyda rhieni yn Ysgol Cynwyd Sant ar 7 Chwefror 2022. Ceir manylion llawn am drafodaethau ac ymatebion/eglurhad y cyfarfod yn Atodiad 4 yr Adroddiad Ymgynghori hwn.

5.11 Codwyd cwestiynau yn ymwneud yn bennaf â staffio, niferoedd disgyblion, meini prawf, lleoliad y Canolfan Adnoddau Dysgu ac integreiddio â'r ysgol.

5.12 Eglurodd cynrychiolwyr y Cyngor y staffio, y niferoedd disgyblion a'r meini prawf. Esboniwyd y lleoliad hefyd a sut y byddai'r broses o ailintegreiddio i'r brif ysgol yn gweithio.

**Crynodeb o'r sylwadau ysgrifenedig**

5.13 Derbyniwyd un eitem o ohebiaeth uniongyrchol yn ystod y cyfnod ymgynghori. Gweler Atodiad 5 yr Adroddiad Ymgynghori hwn i gael manylion ac ymatebion/eglurhad.

5.14 Anfonwyd ymateb at ddechreuwr yr eitem ohebiaeth yn diolch iddo am ei gyflwyniad ac yn dweud y byddai ei sylwadau yn cael eu hystyried.

**6. Safbwynt Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

6.1 Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgiadol y cynnig. Gweler Atodiad 6 yr Adroddiad Ymgynghori hwn i gael y manylion llawn. Mae Estyn wedi dod i'r casgliad canlynol:

"Yn seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf, nid oes gan Estyn unrhyw amheuon ynghylch Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn sefydlu darpariaeth dosbarth adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg newydd ar gyfer dysgwyr sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant. Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal, o leiaf, safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal."

**7 Asesiadau effaith**

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar y Gymuned yn rhan o’r cam ymgynghori ac fe’i cyhoeddwyd yn rhan o’r ddogfen ymgynghori. Nid ystyrir yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio’n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig. Fel gyda Chanolfannau Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol eraill yn yr awdurdod lleol, bydd angen aelod ychwanegol o staff yn y Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol. Ar ôl adolygu’r ymatebion i’r ymgynghoriad, mae’r asesiad wedi ei ddiweddaru ac mae’r casgliad yn parhau i fod yn ddilys (gweler Atodiad 7 yr Adroddiad Ymgynghori hwn).

7.2 Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o’r cam ymgynghori (gweler Atodiad 8 yr adroddiad ymgynghori hwn). Daeth i’r casgliad na fyddai unrhyw effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir gan ddysgwyr yn yr ysgol ar hyn o bryd ac y byddai’r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu drwy’r cwricwlwm fel sy’n digwydd ar hyn o bryd.

7.3 Cynhaliwyd Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb yn rhan o’r cam ymgynghori (gweler) Atodiad 9 yr Adroddiad Ymgynghori hwn).Daeth yr asesiad i’r casgliad nad yw’r cynnig yn debygol o effeithio’n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig. Ar ôl adolygu’r ymatebion i'r ymgynghoriad, mae’r casgliad yn parhau i fod yn ddilys.

7.4 Ystyriwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth lunio’r cynnig (gweler Atodiad 10).

## 8 Goblygiadau ariannol

8.1 Byddai’r cyllid ar gyfer y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei ddyrannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol prif ffrwd, drwy ddyraniad fformiwla cyllido’r ysgol, a thrwy ddefnyddio cyfuniad o ddyraniad dosbarth a’r elfen uned a bwysolwyd ar sail oedran y disgybl.

8.2 Byddai’r lefelau cyllido yn deillio o anghenion staffio cyfredol tybiannol ac maent yn seiliedig ar gyflog athro a dau aelod o staff cymorth. £10,000 fyddai’r cyllid untro ar gyfer y costau sefydlu.

8.3 Yn rhan o Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2021–2022, cymeradwywyd pwysau cyllideb o £60,000 ar gyfer dosbarth Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol ysgol gynradd ychwanegol i ddarparu ar gyfer plant Cyfnod Allweddol 2 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd y gyllideb hon yn cael ei defnyddio i gyllido’r Canolfan Adnoddau Dysgu, gan gynnwys y costau sefydlu, yn Ysgol Cynwyd Sant pe byddai’r cynnig yn cael ei gymeradwyo.

## 9. Proses statudol wrth benderfynu ar gynigion

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amserlen dros dro:

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori pan rydym yn croesawu eich safbwyntiau a’ch sylwadau ar y cynnig*. | 6 Ionawr 2022–<br>17 Chwefror 2022 |
| Adroddiad Ymgynghori Drafft i’r Cabinet ar ganlyniadau’r ymgynghoriad. | 14 Mehefin 2022 |

| Gweithgaredd | Dyddiad |
|---|---|
| | |
| Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cabinet, cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori cymeradwy ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, copïau caled sydd ar gael ar gais ('yn amodol ar y cyfnod galw i mewn fel yr amlinellir yn Rhan 4 Rheolau Gweithdrefnau cyfansoddiad y Cyngor'. | 15 Mehefin 2022 |
| Os cytunir arno gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyhoeddir Hysbysiad Statudol a bydd cyfnod o 28 niwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig. | Mehefin 2022 |
| Os nad oes gwrthwynebiad, caiff y Cabinet benderfynu a fydd y cynnig yn mynd rhagddo ai peidio. Os oes unrhyw wrthwynebiad, caiff Adroddiad Gwrthwynebiadau ei anfon i'r Cabinet i'w ystyried ac i benderfynu arno yn sgil hynny. Yna bydd yr adroddiad cymeradwy yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais. | Medi 2022 |
| Cyhoeddi'r llythyr penderfyniad. Mae'n rhaid i'r llythyr penderfyniad fod ar gael o fewn 7 niwrnod i ddyddiad y penderfyniad. Felly, byddai'r llythyr yn cael ei gyhoeddi 'yn amodol ar y cyfnod galw i mewn'. | Medi 2022 |
| Gweithredu (hynny yw, yn amodol ar ganlyniad llwyddiannus y gweithgareddau a nodir yn y tabl hwn). | Tymor yr Hydref 2022 |

**Mae copïau caled o'r adroddiad hwn ar gael ar gais.*

**Swyddog Cyswllt:** Cyfarwyddiaeth Addysg a Chymorth i Deuluoedd (Uned Gymorth y Gyfarwyddiaeth)
**Rhif ffôn:** (01656) 643643

**E-bost:** edsu@bridgend.gov.uk

**Cyfeiriad Post** Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Swyddfeydd Dinesig
Stryd yr Angel
Pen-y-bont ar Ogwr,
CF31 4WB

**ATODIAD 1**

# Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Cynwyd Sant – Cyngor yr Ysgol
**17 Ionawr 2022**
**14:45–15:15**

Yn bresennol: Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - 2
Pennaeth - 1
Dysgwyr - 6

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nododd ddiben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| Pwy fydd yr athro? | Bydd hysbyseb ar gyfer athro a fydd yn meddu ar sgiliau arbennig ar gyfer y dosbarth. Bydd yr awdurdod lleol yn gweithio gyda'r ysgol i benodi aelod o staff ar gyfer y dosbarth. |
| Ymhle y byddant yn chwarae? | Bydd hynny'n dibynnu ar y gwaith adeiladu, mae'n bosibl y bydd ffens. Mae Iechyd a Diogelwch yn bwysig. |
| Ymhle y byddant yn bwyta eu cinio? | Mae'n dibynnu ble sy'n cyd-fynd â'r dosbarth. Bydd hynny'n cael ei sortio a'r hyn sydd orau i'r plant. |
| A fyddai'r plant yn aros yn y dosbarth drwy'r dydd? | Bydd y dosbarth yn rhan o amserlen yr ysgol. Byddant yn dod allan ar gyfer Addysg Gorfforol er enghraifft, yn defnyddio'r ardal blannu, y coetir, y llyfrgell. |
| A fyddai'r plant yn gallu gweld ffrindiau? | Byddant, byddem ni'n annog hynny. |
| A fyddant yn cael eu gwers Addysg Grefyddol yn yr ystafell ddosbarth? | Byddant, ond efallai y byddant wedi eu cymysgu. Byddai'r plant yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd boreol Dathlu. |
| A fydd ganddynt eu toiled eu hunain? | Bydd, bydd ganddynt gegin a sinc hefyd. Bydd popeth yn newydd. Bydd drysau'n agor i'r iard. |
| Pa oedrannau fydd yn y dosbarth? | Blwyddyn 3 i 6. |
| A fydd ganddynt eu trafnidiaeth eu hunain? | Bydd, bydd cludiant. |
| A fyddant yn yr ysgol yr un amser â ni i gyd? | Byddant, bydd y plant yn rhan o Ysgol Cynwyd Sant. |
| A fydd blynyddoedd 1 a 2 yn cael eu cymorth? | Ni fyddai cymorth i'r disgyblion hynny yn newid. |

| | |
|---|---|
| Faint o staff? | Un athro. Gellid cael oedolion eraill, gan ddibynnu ar anghenion y plant. |
| Ymhle y byddant yn bwyta eu cinio/pecyn cinio | Yn yr ystafell ddosbarth o bosibl, ond bydd pob plentyn yn rhan o Ysgol Cynwyd Sant. |
| Beth am y ddarpariaeth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd? | Mae hyn yn dal i gael ei drefnu, mae rhai yn treialu'r brif ffrwd ac mae rhai yn dod allan o'r dosbarth am gymorth penodol. |

**ATODIAD 2**

**Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Cynwyd Sant – staff**
**7 Chwefror 2022**
**15:40–16:25**

Yn bresennol: Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - 2
Athrawon - 3

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nododd ddiben y cyfarfod, natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

| Cwestiynau/Materion | Atebion/Sylwadau |
|---|---|
| Beth fydd y staffio?<br><br>Mae lleoliad yr adeilad yn bryder o ran cymorth. | Un athro, mae hyn yn ecwitïol â'r Canolfannau Adnoddau Dysgu eraill ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Edrychir ar gymorth gyda'r plant yn unigol. Rydym yn adolygu'r Canolfannau Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn rhan o'r Adolygiad Cynllunio Darpariaeth Strategol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. |
| Beth am gynlluniau datblygu unigol? | Dylai unrhyw blentyn newydd ddod i mewn i'r Canolfan Adnoddau Dysgu gyda chynllun datblygu unigol. Y blynyddoedd gorfodol yn gyntaf fydd hi. Bydd cyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn rhan o'r cyfnod pontio. Bydd staff yr awdurdod lleol yn cefnogi. |
| Faint o ddisgyblion? | Bydd uchafswm o 15. Cynhelir y panel ym mis Mawrth 2022 a bydd y data'n gliriach, byddwn yn edrych ar y sefyllfa yn ei chyfanrwydd. Os oes gan blant anghenion ymddygiadol, dylid dilyn yr ymateb graddedig gan y tîm cyfathrebu a pherthnasoedd. |
| A fydd y dosbarth ar wahân? | Bydd amserlen, ond bydd y plant yn ymuno â'r ysgol gyfan ar gyfer pethau fel cyfarfodydd boreol ac Addysg Gorfforol. Wrth i'r plant setlo, bydd y broses integreiddio yn dibynnu ar anghenion unigol y plant. |
| A fydd y dosbarth yn cael ei ddefnyddio yn nata yr ysgol? | Defnyddir B Squared yn y Canolfannau Adnoddau Dysgu, ac edrychir ar hyn gyda rheolwyr yr ysgol. |
| A fydd y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael effaith ar lwyth gwaith y Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol? | Bydd gan athro y dosbarth swyddogaeth bwysig i'w chwarae yn ei rhinwedd ei hun. |
| A fydd unrhyw wrth-integreiddio? | Bydd yr ysgol yn manteisio ar yr arbenigedd o fod â Chanolfan Adnoddau Dysgu yn yr ysgol. |

**ATODIAD 3**

**Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Cynwyd Sant**
**gyda**
**Chorff Llywodraethu yr Ysgol**
**7 Chwefror 2022**
**16:30–17:00**

Yn bresennol: Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - 2
Staff - 2
Llywodraethwyr yr Ysgol - 2

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nododd ddiben y cyfarfod, ac esboniodd natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| Beth am y gwaith adeiladu ac unrhyw gynlluniau newydd ar gyfer Ysgol Cynwyd Sant? | Mae'r Cabinet wedi rhoi cymeradwyaeth i ymgynghori ar agor Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Cynwyd Sant, yn awdurdod lleol mae angen i ni fynd i'r afael â'r anghenion cyfredol. |
| Beth am y Canolfan Adnoddau Dysgu yn Llangynwyd? | Mae Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn Ysgol Gyfun Gymraeg Llangynwyd. Nid yw'r cynllun ar gyfer sut y bydd y model eilaidd ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn edrych wedi ei benderfynu arno eto. Mae cymorth ar waith ar hyn o bryd. |

**ATODIAD 4**

# Cyfarfod Ymgynghori Ysgol Cynwyd Sant gyda Rhieni
## 7 Chwefror 2022
## 17:00–17:30

Yn bresennol: Staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr - 2
Staff - 2
Cadeirydd y llywodraethwyr - 1
Rhieni - 1

Cyflwynodd Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr y sesiwn ymgynghori a nododd ddiben y cyfarfod, ac esboniodd natur a phroses yr ymgynghoriad ac amlinellodd y cynnig.

| **Cwestiynau/Materion** | **Atebion/Sylwadau** |
|---|---|
| Faint o blant fydd yn y Canolfan Adnoddau Dysgu? | Uchafswm o 15 disgybl o bob rhan o'r awdurdod lleol. |
| A fydd hyn yn seiliedig ar anghenion? | Bydd. |
| A oes panel? | Oes. Cynhelir y panel nesaf ym mis Mawrth 2022. Edrychir ar y niferoedd, fe'i harweinir gan anghenion, y posibilrwydd o'u gwrthdroi i'r brif ffrwd. |
| Ai llawn amser y bydd y ddarpariaeth? | Ie, ond gallai ddefnyddio'r brif ffrwd ar gyfer rhai pethau ar sail anghenion unigol. |
| A fydd gwaith recriwtio ar gyfer addysgu? | Bydd, bydd hyn yn cael ei hysbysebu, cyfle da. |
| Ymhle fydd yr ystafell ddosbarth yn cael ei lleoli? Yn y fan lle mae'r cylch meithrin? | Ie. |
| A yw'r gwaith adeiladu ar y trywydd iawn? | Ydy, mae ef yn cael ei dendro ar hyn o bryd; rhagwelir y bydd wedi ei gwblhau'n brydlon. |
| A fydd ef yn integreiddio â'r ysgol? | Mae'r dosbarth yn rhan o'r ysgol, yn rhan o Ysgol Cynwyd Sant. Bydd y plant yn ymuno â chyfarfodydd boreol Dathlu er enghraifft. Mae'n bwysig bod y plant yn teimlo'n rhan o'r ysgol. |

**ATODIAD 5**

**Gohebiaeth uniongyrchol a dderbyniwyd:**

Rwyf yn cefnogi'r cynnig yn llwyr. Rwyf yn credu y bydd yn cadw'r plant yn eu hysgolion lle gallant gael cymorth ychwanegol ac aros gyda'u ffrindiau. Fy unig gwestiwn yw, a oes rhaid i blentyn gael diagnosis o anabledd dysgu, neu a yw'r ysgol yn cyflwyno plant y mae'n eu gweld sy'n ei chael hi'n anodd? Ar hyn o bryd mae fy mhlentyn yn cael lleferydd ac iaith yn yr ysgol, ac rwyf yn fwy na bodlon ar y canlyniadau, ond rwyf yn gweld diffyg sgiliau ynddo mewn meysydd eraill.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol:**

Diolch am eich e-bost, bydd eich safbwyntiau yn cael eu cynnwys yn ein hadroddiad i'r Cabinet.

## ATODIAD 6

### Ymateb Estyn i adolygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn 2020
### Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

### Crynodeb/Casgliad

Mae'r ymgynghoriad hwn o ganlyniad i adolygiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr o ddarpariaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn 2020. Nododd hwnnw yr angen i ddatblygu darpariaeth i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol yng nghyfnod allweddol 2 mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg. Cynigir sefydlu darpariaeth ar gyfer uchafswm o 15 o ddisgyblion yn Ysgol Cynwyd Sant i fodloni anghenion dysgwyr sydd â diagnosis o anghenion dysgu cymedrol o fis Medi 2022. Fodd bynnag, mae'r cynnig yn cynnwys sawl gwall neu wrthddywediad y mae angen eu cywiro er eglurder.

Nod y cynnig hwn yw cyflawni darpariaeth decach i fodloni anghenion dysgu ychwanegol disgyblion nawr ac yn y dyfodol ar draws y cyngor, a chaiff ei groesawu. O ganlyniad i agor dosbarth adnoddau dysgu i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymedrol drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r cynigiwr o'r farn y bydd disgyblion yn gallu parhau â'u haddysg yn eu hiaith ddewisol mor agos â phosibl at eu cartref. Mae'r cynigiwr hefyd o'r farn y bydd y ddarpariaeth hon yn cefnogi dysgwyr i bontio i'r dosbarth adnoddau dysgu uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd, yn ôl yr angen. Mae Estyn yn ymwybodol o gynigion tebyg ar draws y sir yn ymwneud ag ADY, a theimlwn y byddai'n fuddiol cynnwys fframwaith i gefnogi'r gwaith o roi cymorth ar waith a sicrhau ei ansawdd yn barhaus. Ar sail y wybodaeth ddiweddaraf, nid oes gan Estyn unrhyw amheuon ynghylch Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn sefydlu darpariaeth dosbarth adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg newydd i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant. Mae Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal safon y ddarpariaeth addysg yn yr ardal, o leiaf.

### Disgrifiad a manteision

Dywed y cynnig yn glir iawn y bu nifer y plant a'r bobl ifanc y mae angen cymorth arnynt â'u hanghenion dysgu ychwanegol yn cynyddu, ac y disgwylir i'r galw gynyddu ymhellach dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi comisiynu adolygiad o anghenion dysgu ychwanegol yn 2020. Mae wedi sefydlu Bwrdd Adolygu Darpariaeth Gynllunio Anghenion Dysgu Ychwanegol ac wedi nodi'r angen i agor darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer anghenion dysgu cymedrol. Mae'r cynnig yn rhoi sylw priodol i'r lleoedd cyfredol yn yr ysgol a'r ffaith na all yr

awdurdod lleol fodloni'r galw am leoedd ysgol yn y dyfodol i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymedrol drwy gyfrwng y Gymraeg. Nid yw'r cynigiwr yn diffinio dosbarth adnoddau dysgu; fodd bynnag, mae'n cyfeirio at "gyfleusterau dysgu arbenigol yn yr ysgol". Mae'n cyfeirio hefyd at y ffaith fod y dosbarth adnoddau dysgu yn allweddol o ran sicrhau y gall dysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol fanteisio ar brofiadau addysg brif ffrwd â'u cyfoedion a chyfle i integreiddio â'r brif ffrwd, lle bo hynny'n bosibl. Nid yw'n glir o'r diffiniad i ba raddau y gall disgyblion, lle y bo'n briodol, fanteisio ar wersi, â chymorth priodol yn ôl yr angen, ochr yn ochr â disgyblion nad ydynt yn mynychu'r dosbarth adnoddau dysgu. Byddai'r cynnig yn cael ei gryfhau drwy gynnwys diffiniad o ddosbarth adnoddau dysgu a mwy o gyfeiriadau at gynhwysiant a sut mae hyn yn wahanol i integreiddio.

Mae'r cynnig yn awgrymu y byddai agor dosbarth adnoddau dysgu ar gyfer anghenion dysgu cymedrol yn atal disgyblion rhag cael eu lleoli y tu allan i'r awdurdod. Byddai'r cynnig yn cael ei gryfhau ymhellach drwy gynnwys mwy o ddata yn ymwneud â darpariaeth y tu allan i'r awdurdod ac effaith y dosbarth adnoddau dysgu newydd ar gyfer anghenion dysgu cymedrol ar hyn.

Ymddengys bod y cynnig yn darparu cyfleoedd effeithiol i randdeiliaid, sefydliadau ac aelodau'r cyhoedd ymateb.

Mae'r cynnig yn amlinellu y rhoddwyd gradd C i Ysgol Cynwyd Sant ar gyfer ei chyflwr. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn weithredol, ond bod angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i ganolig (tair blynedd, yn gyffredinol). Nid yw'r cynnig yn nodi'n glir pa effaith y bydd cyflwr yr adeilad yn ei chael ar allu'r ysgol i gynnig lle priodol ar gyfer y ddarpariaeth.

Byddai'r dosbarth adnoddau dysgu yn cefnogi datblygiad darpariaeth addysgu arbenigol yn yr ysgol brif ffrwd. Nid yw'n glir beth mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfeirio ato gan y term darpariaeth addysgu arbenigol. Hefyd, nid yw'r cynnig yn rhoi manylion mwy penodol nac yn nodi sut mae'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer anghenion y grŵp o ddisgyblion a nodwyd.

Ni chynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar y cynnig hwn; fodd bynnag, dywed y ffurflen sgrinio yn yr Atodiad y caiff asesiad llawn ei gynnal. Dywed tudalen 41, yn anghywir, y cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb. Dywed tudalen 43 y byddai lle yn cael ei greu yn y ddarpariaeth ar gyfer uchafswm o wyth o ddisgyblion, sy'n wahanol i'r nifer yn y cynnig. Nid yw sgriniad yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb yn disgwyl i'r cynnig arwain at wahaniaethu o ran effeithiau niweidiol yn erbyn unrhyw grŵp o bobl. Dywed y cynnig y bydd yn galluogi'r rhai ag anawsterau dysgu (mae anabledd yn nodwedd warchodedig) i gael eu haddysgu mewn cyfleuster ysgol brif ffrwd cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynigiwr o'r farn y gallai hyn feithrin perthynas rhwng disgyblion sydd wedi'u categoreiddio ag ADY a disgyblion mewn addysg brif ffrwd yn Ysgol Cynwyd Sant, gan ddileu'r gwahaniad rhwng disgyblion.

Y cynnig ar gyfer Ysgol Cynwyd Sant yw sefydlu darpariaeth â 15 o leoedd cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymedrol. Mae'r cynnig yn nodi y caiff y ddarpariaeth ei lleoli yn yr ysgol bresennol ac nad oes unrhyw waith adeiladu arfaethedig yn gysylltiedig â'r cynnig. Nid yw'r cynnig yn rhoi unrhyw wybodaeth bellach am y cyfleusterau, a dywed y byddant yn 'briodol' yn unig. Byddai'r cynnig yn cael ei gryfhau pe byddai'n cynnwys lleoliad y dosbarth adnoddau dysgu a sut y bwriedir ei addasu i ddarparu cyfleusterau dysgu arbenigol yn yr ysgol. Yn ogystal, dywed Atodiad G (asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) yn anghywir y bwriedir i'r dosbarth

adnoddau dysgu fod mewn ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd, ond nid yw hynny'n wir am Ysgol Cynwyd Sant.

Mae Atodiad E y cynnig yn rhoi syniad clir o'r rhagamcaniad pum mlynedd ar gyfer poblogaeth disgyblion Ysgol Cynwyd Sant. Mae'r rhagamcaniad hwn yn dangos y bydd nifer gyffredinol y disgyblion yn lleihau dros y cyfnod hwn o bum mlynedd. Y cynnig yw y byddai derbyniadau i'r dosbarth adnoddau dysgu yn cael eu penderfynu gan banel derbyniadau, a fyddai'n asesu anghenion y disgybl. Byddai cynnig yn elwa ar fwy o wybodaeth am y galw cyfredol am leoedd anghenion dysgu cymedrol cyfrwng Cymraeg yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r cynnig yn ystyried dewisiadau amgen addas, gan gynnwys defnyddio ysgolion eraill ar gyfer y dosbarth adnoddau dysgu neu gefnogi'r disgyblion mewn addysg brif ffrwd. Mae'r cynnig yn amlinellu'r manteision, anfanteision a'r risgiau posibl yn briodol. Dywed y cynigiwr mai canlyniad tebygol y dewisiadau amgen hyn yw na fyddai anghenion disgyblion ag anghenion dysgu cymedrol yn cael eu bodloni yn y ffordd fwyaf priodol.

Mae'r cynnig yn ystyried y goblygiadau teithio i ddisgyblion, ond dywed na fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith ar y trefniadau teithio cyfredol, gan y byddai cludiant ar gael i ddisgyblion sy'n gymwys i gael lle yn y dosbarth adnoddau dysgu. Dywed y cynigiwr y byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r dull teithio 'priodol' ar gyfer y disgyblion hynny sy'n mynychu'r dosbarth adnoddau dysgu, ond ni roddir unrhyw fanylion. Nid yw'r cynnig yn mynd i'r afael â'r amser teithio ychwanegol a all fod gan ddisgyblion o'r tu allan i ddalgylch arferol yr ysgol.

Mae'r cynnig cyffredinol yn rhoi ystyriaeth dda i'r angen i ddysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol gael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhoi ystyriaeth briodol i weithredu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a fyddai'n cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr awdurdod lleol. Ymddengys y byddai effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth Gymraeg i'r disgyblion hyn. Mae'r cynigiwr yn cyfeirio at y diffyg darpariaeth Gymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, a byddai'r cynnig hwn yn cymryd camau tuag at fynd i'r afael â'r diffyg hwn. Mae'r cynnig hefyd yn amlygu'r ethos a'r hunaniaeth Gymraeg gref yn Ysgol Cynwyd Sant.
Mae'r cynnig yn rhoi ystyriaeth briodol i gostau ariannol y dosbarth adnoddau dysgu, a dywed y byddai cyllid yn cael ei ddyrannu drwy gyllideb ddirprwyedig yr ysgol brif ffrwd. Cymeradwywyd gwasgfa ar y gyllideb o £60,000 i ddarparu dosbarth anghenion dysgu cymedrol i blant yng nghyfnod allweddol 2 sy'n mynychu addysg cyfrwng Cymraeg. Caiff y gyllideb hon ei defnyddio i ariannu'r dosbarth adnoddau dysgu, gan gynnwys y costau sefydlu. Nid oes unrhyw ddadansoddiad pellach o'r costau disgwyliedig, ond tybiwn y bydd cost athro arbenigol amser llawn yn gyfran sylweddol o'r dyraniad hwn. Byddai'n fuddiol cael mwy o wybodaeth am ariannu'r adnodd hwn yn y dyfodol. Er enghraifft, p'un a fydd y dyraniad cyllideb i ddisgyblion sy'n cael eu derbyn i'r dosbarth adnoddau dysgu yn fwy na'r rhai yn yr ysgol brif ffrwd oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol a'r angen am gymorth ac adnoddau ychwanegol.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Wrth ystyried effaith y cynnig ar ansawdd deilliannau, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth, rhoddodd yr awdurdod lleol grynodeb o'r arsylwadau perthnasol o arolygiad diweddaraf Estyn a deilliant categoreiddio'r consortiwm rhanbarthol ar gyfer yr ysgol.

Arolygydd Estyn Ysgol Cynwyd Sant yn 2016 a barnodd fod perfformiad cyfredol yr ysgol yn dda a'i rhagolygon gwella yn rhagorol. Yn ein hadroddiad yn 2016, nodom fod bron pob un o'r athrawon yn gwneud defnydd effeithiol o amrywiaeth o ddulliau addysgu cyfoethog sy'n sicrhau bod rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda ac yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn llwyddiannus. Roedd ansawdd yr addysgu'n effeithiol ar draws yr ysgol, ac roedd gan athrawon ddealltwriaeth gadarn o'r camau nesaf i wella medrau disgyblion yn llwyddiannus. Nodom fod arweinyddiaeth yr ysgol yn rhagorol, a bod gan arweinwyr a staff weledigaeth glir, safonau a disgwyliadau uchel, a bod pwyslais cryf ar lais y disgybl.

Crybwyllwyd Ysgol Cynwyd Sant yn adroddiad thematig "Gwella Addysgu" Estyn yn 2018 hefyd. Crybwyllodd yr adroddiad fod yr ysgol yn ysgol arloesi ac yn cydweithio â Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill ar ddatblygiadau yn ymwneud â'r cwricwlwm a dysgu proffesiynol. Crybwyllwyd bod Ysgol Cynwyd Sant yn cynorthwyo ysgolion eraill yn y consortiwm drwy gynnig hyfforddiant a chyfleoedd i arsylwi a rhannu arfer dda.

Yn y categoreiddiad diweddaraf o ysgolion ym mis Ionawr 2020, categoreiddiwyd Ysgol Cynwyd Sant yn ysgol werdd (ysgol hynod effeithiol sy'n cael ei rheoli'n dda, sydd ag arweinyddiaeth gref ac sy'n glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella).

Mae'r cynigiwr yn haeru y byddai sefydlu dosbarth adnoddau dysgu yn yr ysgol yn darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i ddisgyblion sydd â diagnosis o anghenion dysgu cymedrol. Byddai hyn yn cynnig y cyfle i ddisgyblion ag anghenion dysgu cymedrol barhau â'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg mewn darpariaeth arbenigol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ni ddisgwylir i'r cynnig gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg yn yr ysgol.

Dywed y cynigiwr y caiff aelod ychwanegol o staff arbenigol ei gyflogi i weithio yn y ddarpariaeth ac i ddarparu arbenigedd mewn anghenion dysgu cymedrol i ddosbarthiadau prif ffrwd. Fodd bynnag, ni roddir unrhyw fanylion am y lefel na'r math o gymwysterau sydd eu hangen, ac ni roddir unrhyw esboniad o sut bydd athro amser llawn yn y dosbarth adnoddau dysgu yn gallu cefnogi'r ysgol brif ffrwd hefyd. Byddai'r cynnig yn cael ei gryfhau ymhellach drwy gynnwys mwy o wybodaeth am staffio'r adnodd. Nid yw'n glir a fyddai'r athro arbenigol yn cael cefnogaeth gan gynorthwyydd addysgu na pha hyfforddiant fyddai'n cael ei gynnig i'r staff a all fod yn addysgu dysgwyr yn y dosbarthiadau prif ffrwd. Mae angen ystyried sut caiff absenoldeb ac amser cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) athrawon eu cefnogi'n effeithiol yn y dosbarth er mwyn sicrhau cysondeb hanfodol i ddysgwyr. Mae'r cynnig hefyd yn nodi y bydd y dosbarth adnoddau dysgu'n cynyddu arbenigedd staff Ysgol Cynwyd Sant i fodloni anghenion plant eraill sy'n dangos nodweddion anghenion dysgu cymedrol ond nad oes ganddynt ddiagnosis ffurfiol. Dylid nodi bod gan yr awdurdod lleol ddyletswyddau statudol mewn perthynas â'r dysgwyr hyn dan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010). Nid yw diffyg diagnosis ffurfiol yn dileu'r ddyletswydd statudol i sicrhau darpariaeth briodol. Byddai'r cynnig yn cael ei gryfhau ymhellach drwy drafod y nodweddion hyn a sut bydd yr ysgol yn bodloni anghenion dysgwyr yn y ddarpariaeth brif ffrwd.

**Ymatebion/eglurhad yr awdurdod lleol i'r materion cryno a godwyd:**

Mewn ymateb i'r cwestiynau a godwyd gan Estyn ynghylch darparu eglurder o ran y Ganolfan Adnoddau Dysgu a'r cysylltiad â'i gosod mewn ysgol brif ffrwd. Mae'r Adroddiad Ymgynghori wedi'i gryfhau drwy ddarparu eglurder a'r diben o sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu mewn ysgol brif ffrwd.

O ran sefydlu darpariaeth leol ac atal lleoliadau y tu allan i'r awdurdod. Pan fo'n bosibl, mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu ystod o ddarpariaeth leol er mwyn atal lleoli plant a phobl ifanc rhag o bosibl cael eu haddysgu y tu allan i'r awdurdod a diogelu'r ddarpariaeth ar gyfer y dyfodol cyn belled ag y bo modd.

Cododd Estyn y cwestiwn ynghylch effaith cyflwr yr adeilad ar allu'r ysgol i ddarparu lle priodol ar gyfer y ddarpariaeth a gofynnodd hefyd am eglurder ynghylch beth fyddai'r adeilad. Mewn ymateb, gall yr awdurdod lleol egluro bod addasiadau i adeilad sy'n bodoli eisoes yn cael eu gwneud a oedd gynt yn gartref i'r cylch meithrin yn Ysgol Cynwyd Sant.

Mewn ymateb i gwestiynau Estyn a godwyd am yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) ac asesiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r ddwy ddogfen hyn wedi'u diwygio yn dilyn yr ymgynghoriad.

Os derbynnir y cynnig, byddai'r Ganolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol bron yn llawn o fewn ei flwyddyn gyntaf o agor. Bydd cludiant a chymorth i'r plant yn cael eu trafod ar sail unigol fel rhan o gyfarfod cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

O ran ariannu'r Ganolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol, ceir esboniad llawn yn adran gyllid yr adroddiad.

Dilynir proses recriwtio, gyda disgrifiad swydd a manyleb person wedi'u hysgrifennu fel sydd wedi'i wneud ar gyfer staffio eraill yn y Ganolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol cyfrwng Saesneg. Gwneir hyn mewn partneriaeth â'r ysgol.

Mae'r awdurdod lleol yn cytuno bod ganddo ddyletswyddau statudol am y dysgwyr hyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Ar ôl ymgynghori, mae'r adroddiad wedi'i ddiweddaru.

**ATODIAD 7**

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

**Mae hwn wedi ei ddiweddaru yn dilyn yr ymgynghoriad.**

**Enw'r cynnig:**

Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Cynwyd Sant ar gyfer uchafswm o bymtheg o ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn ystod tymor yr hydref 2022.

**Pwy fydd yn gwneud y penderfyniad?**

Y Cabinet

**Pwy sydd wedi cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu'r cynnig?**

Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd

Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr

**Nodau ac amcanion:** Y ddarpariaeth Anawsterau Dysgu Cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant.

**Camau gweithredu allweddol:** Gweithdrefn statudol i sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Cynwyd Sant ar gyfer uchafswm o bymtheg o ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn ystod tymor yr hydref 2022.

**Y deilliannau disgwyliedig:** Sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol gyda'r bwriad o'i weithredu yn ystod tymor yr hydref 2022.

**Y rhai yr effeithir arnynt:** Staff, llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a'r gymuned.

**Tua faint o bobl yr effeithir arnynt:** Ychydig iawn o bobl yr effeithir arnynt gan y cynnig hwn. Bydd aelod ychwanegol o staff, sef athro arbenigol.

**Dyddiad disgwyliedig y penderfyniad**: Medi 2022.

**Cwmpas/pwyslais yr asesiad:** Ystyrir y canlynol:

- Yr ansawdd a'r safonau presennol mewn addysg
- Targedau blaenoriaeth yr ysgol (yn y datganiad gweithredu)
- Y ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Perthynas yr ysgol â rhanddeiliaid.
- Yr effaith bosibl ar ddisgyblion a staff yn sgil cyflwyno'r cynnig.

- Yr effaith bosibl ar y gymuned.

- Yr effaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig (a amlinellir yn yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb).

**Data a/neu ymchwil berthnasol:**

- Mae'r tabl canlynol yn darparu amcanestyniad pum mlynedd o'r boblogaeth ddisgyblion ar gyfer Ysgol Cynwyd Sant, sef ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg a chanddi ystod oedran o 4 hyd at 11.

| • Blwyddyn /Year | M1 Oed / Age 2 - 3 | M2 Oed / Age 3 - 4 | D Oed / Age 4 - 5 | 1 Oed / Age 5 - 6 95% | 2 Oed / Age 6 - 7 96% | 3 Oed / Age 7 - 8 96% | 4 Oed / Age 8 - 9 100% | 5 Oed / Age 9 - 10 99% | 6 Oed / Age 10 - 11 99% | Cyfanswm/ Total 2–11 | Cyfanswm/ Total 4–11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2021 | 0 | 31 | 44 | 32 | 22 | 37 | 37 | 41 | 41 | 285 | 254 |
| 2022 | 1 | 34 | 43 | 42 | 31 | 21 | 37 | 37 | 41 | 287 | 252 |
| 2023 | 1 | 34 | 38 | 41 | 40 | 29 | 21 | 37 | 36 | 277 | 242 |
| 2024 | 1 | 34 | 41 | 36 | 39 | 39 | 29 | 21 | 36 | 276 | 241 |
| 2025 | 1 | 34 | 41 | 39 | 35 | 38 | 39 | 29 | 21 | 277 | 242 |
| 2026 | 1 | 34 | 41 | 39 | 35 | 38 | 39 | 29 | 21 | 277 | 242 |

- Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi mynd ati'n rhagweithiol i ymdrin â hyn drwy gomisiynu adolygiad o'r ddarpariaeth cynllunio strategol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn 2020.

- Sefydlwyd Bwrdd Adolygu Darpariaeth Cynllunio Strategol ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae un o'r meysydd a nodwyd ar gyfer darpariaeth ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 2 mewn Ysgol Gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol.

**Canfyddiadau:**

- Nid oes gan lefel y cofrestriadau a ragwelir unrhyw lefel ddisgwyliedig o amrywiadau sylweddol a fyddai'n effeithio ar y cynnig (tabl ynghylch lefel y cofrestriadau a ragwelir yn y dyfodol a ddarperir yn yr adran 'data perthnasol' uchod).

**Cynnwys plant a phobl ifanc**

- Mae'r cynnig hwn yn dilyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

**Yr effaith ar y gymuned estynedig**

- Nid oes unrhyw effaith negyddol sylweddol ar y gymuned.

**Yr effaith ar ysgolion eraill**

- Nid oes unrhyw effaith ar ysgolion eraill oherwydd y bydd yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.

**Sut bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**

- Y gymhareb ar gyfer Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yw un athro i bymtheg o ddisgyblion. Mae'r holl Ganolfannau Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol eraill yn gweithio i'r gymhareb hon. Bydd y disgyblion sydd mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg sydd wedi cael diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol yn gallu trosglwyddo i'r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg.

**Ymgynghoriad**

**A fu ymgynghoriad penodol ar y penderfyniad hwn (os na fu, nodwch pam ddim a/neu bryd y gallai hyn ddigwydd):**
Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 6 Ionawr 2022 a 17 Chwefror 2022.

**Beth oedd canlyniadau'r ymgynghoriad?**
Mae effaith y cynnig hwn wedi ei hystyried a'i diweddaru.

**Ar draws y nodweddion gwarchodedig, pa wahaniaeth mewn safbwyntiau a ddatgelwyd drwy ddadansoddi'r ymgynghoriad?**
Daeth yr asesiad i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

**Pa gasgliadau a dynnwyd o'r dadansoddiad ar sut y bydd y penderfyniad yn effeithio ar bobl sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol?**
Nid ystyrir yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

**Asesiad o'r effaith ar y staff**
Nid oes unrhyw effaith o ran lleihau nifer y staff.  Bydd angen staffio ychwanegol, bydd angen athro arbenigol ychwanegol.

**Asesiad o'r effaith ar y gymuned ehangach**

Nid oes unrhyw effaith negyddol sylweddol ar y gymuned ehangach.

**Dadansoddiad o effaith fesul nodweddion gwarchodedig**
**Crynhowch ganlyniadau'r dadansoddiad:**
Nid ystyrir yn debygol y bydd y cynnig yn effeithio'n anghymesur ar unrhyw nodweddion gwarchodedig.

**Aseswch berthnasedd ac effaith y penderfyniad ar bobl sydd â nodweddion gwahanol Perthnasedd** = Uchel/Isel/Dim **Effaith** = Uchel/Isel/Niwtral.

| Nodwedd | Perthnasedd | Effaith |
|---|---|---|
| Oedran | Uchel | Isel |
| Anabledd | Uchel | Isel |
| Ailbennu rhywedd | Dim | Niwtral |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Dim | Niwtral |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Dim | Niwtral |
| Hil | Dim | Niwtral |
| Crefydd neu gred | Dim | Niwtral |
| Rhyw | Dim | Niwtral |
| Cyfeiriadedd rhywiol | Dim | Niwtral |
| Grwpiau eraill sydd wedi eu hallgáu'n gymdeithasol (gan gynnwys anghydraddoldeb iechyd) | Dim | Niwtral |

**Pan fo unrhyw effaith negyddol wedi ei nodi, amlinellwch y mesurau a gymerwyd i'w lliniaru:**

Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol.

- Nid oes unrhyw risgiau presennol yn gysylltiedig â'r cynnig hwn.
- Bydd y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cynyddu'r arbenigedd ymhlith staff Ysgol Cynwyd Sant.

**Rhowch gyngor ar y goblygiadau cyffredinol o ran cydraddoldeb y dylid eu hystyried yn y penderfyniad terfynol, gan ystyried perthnasedd ac effaith:**

Daeth yr asesiad i'r casgliad nad yw'r cynnig yn debygol o effeithio'n anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

**Llofnod:**

| |
|---|
| M Hatcher |
| **Dyddiad:** 08.05.22 |

**ATODIAD 8**

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

## Ysgol Cynwyd Sant

Strategaeth yr awdurdod lleol sy'n nodi'r ffordd y mae'n bwriadu hwyluso cynnydd yn nifer y bobl o bob oed sy'n gallu defnyddio'r Gymraeg yn y fwrdeistref sirol yw Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Mae'r awdurdod lleol wedi ymrwymo i fwrw ymlaen â chynlluniau i dyfu'r Gymraeg yn strategol a chyda chynllunio strategol effeithiol a buddsoddiad sylweddol, mae'n bwriadu cyfrannu'n sylweddol at gyflawni gweledigaeth 'Cymraeg 2050' Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg ledled Cymru.

Gellir gweld Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol yr awdurdod lleol drwy'r ddolen ganlynol:

https://democratic.bridgend.gov.uk/documents/s14163/171219%2010%20WESP%20Appendix.pdf?LLL=0

Mae ymgynghoriad statudol ar y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg deng mlynedd newydd ar gyfer y cyfnod rhwng 2022 a 2032 wedi dod i ben yn ddiweddar ac mae'r cynllun wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried.

Y cynnig hwn yw agor Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol ar gyfer uchafswm o bymtheg o ddisgyblion yn Ysgol Cynwyd Sant a fyddai'n dod i rym yn ystod tymor yr hydref 2022.

Oherwydd y byddai'r ysgol arfaethedig yn parhau i ddarparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, byddai'r Gymraeg yn parhau i gael ei haddysgu drwy'r cwricwlwm, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae sawl agwedd ar Ysgol Cynwyd Sant sy'n helpu i greu agwedd gadarnhaol ac sy'n cynyddu gallu dysgwyr i ddefnyddio'r iaith. Mae defnyddio'r Gymraeg ar draws cyfnodau allweddol yn cynnig cyfle i ddysgwyr ddod yn gwbl ddwyieithog ac yn gyson â Chwricwlwm i Gymru 2022. Felly, ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai'r cynnig hwn yn cael effaith sylweddol ar y ddarpariaeth Gymraeg a brofir ar hyn o bryd gan ddysgwyr yr ysgol.

Cynigir cyrsiau Cymraeg gan Dysgu Cymraeg Morgannwg sy'n darparu cyrsiau ar-lein ac yn lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf ar ran y Canolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Maent hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyrsiau blasu ar-lein y gall unrhyw un gael gafael arnynt ac maent yn cynnig sesiynau Sadwrn Siarad o bryd i'w gilydd. Menter Bro Ogwr sy'n cynnig gweithgareddau drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf, er bod Partneriaeth Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn bwriadu cynnig gweithgareddau dysgu pan mae'n gallu gwneud hynny a phan fo gweithgareddau'n ymarferol o ran niferoedd.

Mae'n bwysig cydnabod mai'r cynnydd mewn lleoedd ar gyfer Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant yw sicrhau bod y plant hynny sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn gallu parhau â'u haddysg drwy gyfrwng y

Gymraeg. O ganlyniad i hynny, ni ragwelir effeithiau negyddol ar addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ardal pe bai'r cynnig yn cael ei ddatblygu.

**Proffil ieithyddol presennol**

Nododd Cyfrifiad 2011, o'r 134,545 o drigolion a oedd yn byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, fod 9.7% (13,103) ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, ac nad oedd y 90.3% arall (121,442) yn gallu siarad Cymraeg. Gellir cymharu hyn â ffigurau Cymru gyfan a ddangosodd o'r 2,955,841 o drigolion a oedd yn byw yng Nghymru, fod 19.0% (562,016) ohonynt yn gallu siarad Cymraeg, ac nad oedd yr 81.0% arall (2,393,825) yn gallu siarad Cymraeg.

https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Welsh-Language/Census-Welsh-Language/welshspeakers-by-localauthority-gender-detailedagegroups-2011census

Nododd yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2021 fod 17.8% o'r ymatebwyr a oedd yn byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg, o'i chymharu â chanran Cymru gyfan, sef 29.2% o'r ymatebwyr. Gellir dadansoddi hyn ymhellach i lawr i'r data a gynhwysir yn y tabl a ganlyn.

| Sgiliau Cymraeg Preswylwyr (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru |
| Yn gallu darllen Cymraeg | 16.9% | 25.9% |
| Yn gallu ysgrifennu Cymraeg | 15.9% | 23.8% |
| Yn gallu deall Cymraeg llafar | 21.2% | 33.7% |

| Sgiliau Cymraeg Preswylwyr (%) | | |
|---|---|---|
| | Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru |
| Yn siarad Cymraeg bob dydd | 6.3% | 15.2% |
| Yn siarad Cymraeg bob wythnos | 3.1% | 5.2% |
| Yn ei defnyddio yn llai aml neu byth | 6.9% | 7.3% |

Dengys y data fod bwlch yn sgiliau Cymraeg trigolion Pen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â Chymru gyfan. Mae cynigion fel hyn yn gwella'n sylweddol yr amgylchedd dysgu a'r cyfleoedd sydd ar gael i'n dysgwyr.

Er mwyn annog ymhellach y nifer sy'n manteisio ar addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddysgwyr sy'n dymuno trosglwyddo o addysg cyfrwng Saesneg i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r awdurdod lleol yn bwriadu datblygu'r ddarpariaeth drochi a nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022–2032 drafft.

**Data neu ymchwil perthnasol arall**

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bedair ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr 3–11 oed ac un ddarpariaeth uwchradd ar gyfer dysgwyr 11 i 18 oed.

Caiff y galw a'r amcanestyniadau eu monitro'n rheolaidd ar draws pob ysgol yn rhan o'r broses o gynllunio trefniadaeth ysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob ysgol ddigon o leoedd i ateb y galw. Mae'r broses hefyd yn nodi cyfleoedd i hybu a thyfu'r Gymraeg. Defnyddiwyd y data hyn i lywio Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yr awdurdod lleol.

Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr

9 Mai 2022

**ATODIAD 9**

# Ffurflen sgrinio asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Cyfeiriwch at y canllawiau wrth lenwi'r ffurflen hon.

### Y cynnig sy'n cael ei sgrinio

Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu yn Ysgol Cynwyd Sant ar gyfer uchafswm o bymtheg o ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn ystod tymor yr hydref 2022.

### Disgrifiad byr o'r cynnig

Y cynnig yw darparu Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer uchafswm o bymtheg o ddisgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn nhymor yr hydref 2022. Bydd yr ymgyngoreion yn cynnwys staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni yr ysgol, aelodau o'r gymuned leol ac unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb.

### A yw'r polisi hwn yn ymwneud ag unrhyw bolisïau eraill?

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018.

### Beth yw nod neu ddiben y polisi?

Pan fo hynny'n bosibl, mae'r Cyngor yn cefnogi'r egwyddorion y dylid addysgu plant mewn amgylchedd ysgol prif ffrwd ac mor agos at eu cartref â phosibl cyhyd ag y bo modd.

### Pwy yr effeithir arnynt gan y polisi hwn (e.e., staff, preswylwyr, pobl anabl, menywod yn unig?)

Disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, rhieni, aelodau staff presennol yn Ysgol Cynwyd Sant.

### Pwy sy'n gyfrifol am gyflawni'r polisi?

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd.

### A yw hwn yn adolygiad o bolisi sydd eisoes yn bodoli?

Nac ydy.

### Os yw hwn yn adolygiad neu'n ddiwygiad o bolisi sydd eisoes yn bodoli, a oes unrhyw beth wedi newid ers iddo gael ei adolygu ddiwethaf?

Nac ydy.

### A oes asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb sydd wedi ei gynnal o'r blaen ar y polisi hwn?

Nac ydy.

## Cwestiynau sgrinio

1. **A yw'r polisi hwn yn swyddogaeth bwysig neu'n swyddogaeth sydd 'ar raddfa fawr', a/neu a yw'n debygol y bydd y polisi'n effeithio ar nifer fawr o staff, preswylwyr a/neu gontractwyr**

   Ydy.

2. **A yw'n bosibl y bydd unrhyw agwedd ar y polisi yn effeithio ar bobl o wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd? *(Gweler y canllawiau ar gyfer rhestr o 'nodweddion gwarchodedig' i'w hystyried*) Nac ydy, oherwydd y rhesymau canlynol:-**

- Byddai cynnydd mewn disgyblion sydd â diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Crëir capasiti ar gyfer uchafswm o bymtheg o ddisgyblion.

| ***Nodwedd*** | **Ydy** | **Nac ydy** | **Anhysbys** | **Esboniad o'r effaith** |
|---|---|---|---|---|
| ***Oedran*** | **X** | | | Mae'r effaith yn gadarnhaol. Bydd cynnydd mewn disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol er mwyn cael gafael ar gymorth. |
| ***Anabledd*** | **X** | | | Mae'r effaith hon yn gadarnhaol. Bydd cynnydd ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol. |
| ***Ailbennu rhywedd*** | | **X** | | Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar ailbennu rhywedd. |
| ***Beichiogrwydd a mamolaeth*** | | **X** | | Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar feichiogrwydd na mamolaeth. |
| ***Hil*** | | **X** | | Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar hil. |
| ***Crefydd/cred*** | | **X** | | Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar grefydd na chred. |
| ***Rhyw*** | | **X** | | Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar ryw. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***Cyfeiriadedd rhywiol*** | | X | | Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar gyfeiriadedd rhywiol. |
| ***Partneriaethau Sifil a Phriodasau*** | | X | | Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn effeithio ar bartneriaethau sifil na phriodasau. |

**3. Beth yw'r risg y gallai unrhyw agwedd ar y polisi arwain mewn at wahaniaethu neu effeithiau andwyol yn erbyn unrhyw grŵp o bobl, mewn gwirionedd? (Gweler y canllawiau ar gyfer rhestr o nodweddion gwarchodedig?)**

Nid oes unrhyw risg i ddisgyblion sy'n cael diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol ac sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd y byddai Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn yr ysgol arfaethedig.

Pa gamau sydd wedi eu cymryd i liniaru'r risg hon?

*Ymhelaethwch ar eich ateb:*

**4. A allai unrhyw agwedd ar y polisi helpu Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fodloni prif ddyletswyddau'r sector cyhoeddus? Cofiwch fod y ddyletswydd yn cwmpasu 9 nodwedd warchodedig.**

| Dyletswydd | OES | NAC OES | Anhysbys |
|---|---|---|---|
| Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf | | X | |
| Hybu cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu | X | | |
| Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r bobl nad ydynt yn ei rhannu | X | | |

***Nodwch yn llawn eich ymresymiad dros yr atebion a roddwyd i gwestiwn 4, gan gynnwys ymwybyddiaeth o sut y cyfiawnheir eich penderfyniadau.***

Mae'r polisi yn galluogi'r plant hynny sydd wedi cael diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol i gael eu haddysgu mewn cyfleuster ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol prif ffrwd cyfrwng Cymraeg. Mae'n bosibl y gallai hyn greu perthnasoedd rhwng y plant sydd mewn addysg brif ffrwd a'r plant sydd yn y Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol wrth iddynt ymuno â dosbarthiadau Addysg Gorfforol a chyfarfodydd boreol Dathlu, er enghraifft, gan gael gwared ar raniadau rhwng disgyblion.

5. **A allai unrhyw agwedd ar y "polisi" hwn gynorthwyo Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sef ystyried: -**

- Bydd y cynnig yn cynyddu'r ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.
- Mae'r cynnig yn rhoi cyfle i'r disgyblion hynny sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol gael eu haddysgu mewn Canolfan Adnoddau Dysgu mewn amgylchedd prif ffrwd.

6. **A ydych yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bod gan wahanol grwpiau anghenion, profiadau, materion a/neu flaenoriaethau gwahanol mewn cysylltiad â'r polisi hwn?**

Ydw          Nac ydw          Anhysbys

*Nac ydw.*

*Os ydych, ymhelaethwch:*

7. **A yw'r polisi hwn yn debygol o effeithio ar Gydlyniant Cymunedol?**

Nac ydy – ychydig iawn o newid fydd i'r gymuned oherwydd y bydd disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn gallu mynychu Canolfan Adnoddau Dysgu mewn ysgol prif ffrwd.

## Casgliadau

8. **Pa lefel o flaenoriaeth asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a fyddech yn ei rhoi i'r polisi hwn?**

| **Effaith a Nodwyd** | **Y camau nesaf:** | **Rhowch X yn y blwch perthnasol:** |
|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw effaith negyddol. | Sgrinio allan: parhau â'r polisi neu'r cynnig | **X** |
| Nodwyd un neu fwy o effeithiau negyddol. | Cwblhewch asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb i gasglu mwy o dystiolaeth am effeithiau negyddol posibl | |
| **Esboniwch y rhesymau dros y penderfyniad hwn. Os ydych wedi 'sgrinio allan', mae'n rhaid i chi gynnwys gwybodaeth a thystiolaeth i gyfiawnhau eich penderfyniad.** | | |
| Nodwyd nad yw'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar unrhyw grŵp gwarchodedig.  Nodwyd effeithiau cadarnhaol. Oherwydd na nodwyd unrhyw effeithiau negyddol, ni fydd angen cynnal asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb. | | |

| |
|---|
| |

**9. A fydd unrhyw ddylanwad arall yn effeithio ar amserlen yr asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb e.e. dyddiad cau'r Pwyllgor, dyddiad cau allanol, rhan o broses adolygu ehangach?**

| **Gweithgaredd** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Cyfnod ymgynghori pan rydym yn croesawu eich safbwyntiau a'ch sylwadau ar y cynnig*. | 6 Ionawr 2022–17 Chwefror 2022 |
| Adrodd i'r Cabinet ar ganlyniadau'r ymgynghoriad. | 14 Mehefin 2022 |
| Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, bydd copïau caled ar gael ar gais. | 15 Mehefin 2022 |
| Os cytunir arno gan Gabinet Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, cyhoeddir Hysbysiad Cyhoeddus a bydd cyfnod o 28 diwrnod i gyflwyno unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig yn ysgrifenedig. | Mehefin 2022 |
| Diwedd cyfnod yr Hysbysiad Cyhoeddus. Os nad oes gwrthwynebiad, caiff y Cabinet benderfynu ar unwaith a fydd y cynnig yn mynd rhagddo ai peidio. Os oes unrhyw wrthwynebiad, caiff Adroddiad Gwrthwynebiadau ei gyhoeddi a'i anfon i'r Cabinet i'w ystyried ac i benderfynu arno yn sgil hynny. | Medi 2022 |
| Gweithredu posibl. | Tymor yr Hydref 2022 |

**10. Pwy fydd yn cynnal yr asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb?**

Amh.

***Cwblhawyd y broses o sgrinio'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb gan: Michelle Hatcher Dyddiad: 08.05.22***

**ATODIAD 10**

## ASESIAD O DDEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

<table>
<tr><td colspan="2">

- **Disgrifiad o'r Prosiect (nodau allweddol):**

Cynnig i sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer uchafswm o bymtheg o ddisgyblion ag Anawsterau Dysgu Cymedrol yn Ysgol Cynwyd Sant.
</td></tr>
<tr><td>Adran 1</td><td>Cwblhewch y tabl isod i asesu pa mor dda yr ydych wedi cymhwyso'r pum ffordd o weithio.</td></tr>
<tr><td>Yr hirdymor<br><br>(Pwysigrwydd cydbwyso'r anghenion tymor byr â'r angen i ddiogelu'r gallu hefyd i ddiwallu'r anghenion hirdymor)</td><td>1. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cydbwyso anghenion tymor byr â'r hirdymor a'r broses o gynllunio ar gyfer y dyfodol?<br><br>Mae angen Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol a fydd wedyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion gael eu haddysgu mewn ysgol prif ffrwd.<br><br>Bydd derbyniadau graddedig i'r Canolfan Adnoddau Dysgu er mwyn sicrhau bod darpariaeth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae angen lleoedd ychwanegol i ddiwallu'r galw am y cynnydd mewn disgyblion sydd â diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol drwy gyfrwng y Gymraeg.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Atal**<br><br>(Sut y gallai gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion) | **2. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn darparu adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu?**<br><br>Bydd agor y Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn arwain at fwy o adnoddau ar lefel gynradd yn rhan o'r ymateb graddedig fel y nodir yn y Cod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol.<br><br>Yn y pen draw, bydd disgyblion yn cael eu hatal rhag cael lleoliad y tu allan i'r awdurdod. |
| **Integreiddio**<br><br>(Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar ei amcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill) | **3. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cyflawni deilliannau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol gyda'i gilydd?**<br><br>Mae Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn allweddol i sicrhau bod disgyblion sydd â diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol yn gallu cael profiadau addysg brif ffrwd gyda'u cyfoedion a chael cyfle i integreiddio i'r brif ffrwd hefyd pan fo hynny'n bosibl. |
| **Cydweithredu**<br><br>(Gweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant) | **4. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys cydweithio â phartneriaid (mewnol ac allanol) i gyflawni amcanion llesiant?**<br><br>Cydweithrediad rhagorol rhwng yr awdurdod lleol ag ysgolion sydd â Chanolfannau Adnoddau Dysgu.  Mae'r Gwasanaeth Cymorth i Ddysgwyr yn darparu cymorth parhaus; cyngor a chanllawiau i bob ysgol. |
| **Cyfranogiad**<br><br>(Pwysigrwydd cynnwys y bobl | **5. Sut mae eich prosiect / gweithgaredd yn cynnwys rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant? Sut mae'r rhanddeiliaid hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal?** |

| | |
|---|---|
| sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu) | Mae amrywiaeth o randdeiliaid yn ymwneud â disgybl a leolir mewn Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol, sy'n sicrhau y diwellir anghenion unigol y disgybl. |

| **Adran 2** | **Aseswch pa mor dda y bydd eich prosiect / gweithgaredd yn arwain at fanteision lluosog i'n cymunedau ac yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol (defnyddiwch Atodiad 1 i'ch helpu).** | |
|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r nodau Llesiant** | **Sut bydd eich prosiect / gweithgaredd yn dod â manteision i'n cymunedau o dan y nodau llesiant cenedlaethol?** | **A oes unrhyw ffordd o gynyddu i'r eithaf y manteision, neu o leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol ar ein cymunedau (a'r cyfraniad tuag at y nodau llesiant cenedlaethol)?** |
| **Cymru lewyrchus**<br><br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth | Mae'r Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn rhoi cyfle i ddisgyblion sydd â diagnosis o Anawsterau Dysgu Cymedrol ennill y sgiliau angenrheidiol yn gynnar. | Caiff yr effaith ar gymunedau lleol ei monitro |

| | | |
|---|---|---|
| a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | | |
| **Cymru gydnerth**<br><br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Bwriedir i'r Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol agor mewn adeilad addasedig ar safle presennol yr ysgol. | Caiff yr effaith ar gymunedau lleol ei monitro |
| **Cymru iachach**<br><br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deallir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i elwa iechyd yn y dyfodol. | Diwellir anghenion unigol y disgyblion yn y Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol. | Caiff yr effaith ar gymunedau lleol ei monitro |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br><br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag yw eu cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol). | Diwellir anghenion unigol y disgyblion yn y Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol | Caiff yr effaith ar gymunedau lleol ei monitro |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Bydd agor y Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol mewn ysgol prif ffrwd yn rhoi gwell cysylltiad â'r gymuned. | Caiff yr effaith ar gymunedau lleol ei monitro |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br><br>Cymdeithas sy'n hybu ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a hamdden. | Mae'r Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol mewn ysgol brif ffrwd yn rhoi'r disgyblion i fod yn rhan o'r gymuned sy'n profi'r pethau hyn. | Caiff yr effaith ar gymunedau lleol ei monitro |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br><br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Mae'r Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymedrol yn rhoi cyfle i ddisgyblion ffynnu'n lleol a thu hwnt. | Caiff yr effaith ar gymunedau lleol ei monitro |

| **Adran 3** | **A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn effeithio ar bobl neu grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig? Esboniwch yr hyn a wneir i gynyddu i'r eithaf unrhyw effeithiau cadarnhaol neu i leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol** | | |
|---|---|---|---|
| Nodweddion Gwarchodedig | A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig? | A fydd eich prosiect / gweithgaredd yn cael unrhyw effeithiau negyddol ar y rhai sydd â nodwedd warchodedig? | A oes ffordd o gynyddu i'r eithaf unrhyw effeithiau cadarnhaol neu o leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol? |
| Oedran: | Bydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |
| Ailbennu rhywedd: | Na fydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |
| Priodas neu bartneriaeth sifil: | Na fydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |
| Beichiogrwydd neu famolaeth: | Na fydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |
| Hil: | Na fydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |
| Crefydd neu Gred: | Na fydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |
| Rhyw: | Na fydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |
| Y Gymraeg: | Bydd | Na fydd | Bydd datblygiad y Canolfan Adnoddau Dysgu yn cael ei fonitro |

| **Adran 4** | **Nodwch gyfarfod penderfynu ar gyfer y Prosiect/gweithgaredd e.e. y Cabinet, y Cyngor neu benderfyniad dirprwyedig a wnaed gan Aelodau Gweithredol a/neu Brif Swyddogion** |
|---|---|
| | |
| **Enw’r Swyddog Llunio:** | Michelle Hatcher |
| **Teitl Swydd y Swyddog Llunio:** | Rheolwr y Grŵp Cymorth i Ddysgwyr |

| **Dyddiad cwblhau:** | 8 Mai 2022 |
|---|---|

**ATODIAD 11**

**Rhestr o randdeiliaid**

- Y Corff Llywodraethu, rhieni, staff, gofalwyr, gwarcheidwaid a dysgwyr Ysgol Cynwyd Sant
- Ysgolion cynradd eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Ysgolion Uwchradd, Ysgolion Arbennig a'r Uned Cyfeirio Disgyblion yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Awdurdodau cyfagos
- Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdodau Esgobaethol yr Eglwys Gatholig

- Gweinidogion Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Senedd ac Aelodau Seneddol sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n ddarostyngedig i'r cynigion
- Estyn
- Comisiynydd y Gymraeg
- Undebau llafur athrawon a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff eraill mewn unrhyw ysgol sy'n ddarostyngedig i'r cynigion
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
- Y Gymdeithas Seciwlar Genedlaethol
- Cynghorau Tref a Chymuned sy'n cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan unrhyw ysgol sy'n ddarostyngedig i'r cynigion
- Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol (SEWTA)
- Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf
- Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)
- Darparwyr meithrin annibynnol neu wirfoddol sy'n gwasanaethu'r ardal
- Tîm Gofal Plant/Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant pan fônt yn bresennol
- Aelodau'r Cabinet
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Phobl Ifanc
- Cyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr
- Bwrdd Rheoli Corfforaethol
- Aelodau'r Ward
- Rheolwr Grŵp Cymorth i Ddysgwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cymorth i Ddysgwyr ar gyfer Rheolwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol